Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg y Cwm

**Jersey Road**
**Bonymaen**
**SA1 7DL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷnagâ Ysgol Gymraeg y Cwm

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg y Cwm |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 128 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 108 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 17.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 25% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 21.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/05/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

**a.** Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ddiogel a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn barchus tuag at eraill. Maent yn teimlo bod staff yn eu cefnogi'n dda, yn gwrando arnynt ac yn delio'n briodol ag unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod sesiynau dysgu. Ychydig iawn ohonynt sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na'r disgwyl am eu hoed a'u cam datblygu. Er hyn, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Mae'r pennaeth, y dirprwy a gweddill y tîm addysgu'n cydweithio'n frwdfrydig i annog y disgyblion i siarad Cymraeg ac i fod yn falch o'u hunaniaeth Gymreig. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n anelu at sicrhau bod disgyblion yn gwneud eu gorau ar bron bob achlysur.

Mae'r cwricwlwm yn eang a diddorol i ddisgyblion, ac yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn dda a'u hannog i fwynhau dysgu. Er bod medrau mathemategol y rhan fwyaf yn datblygu'n dda, cyfyng iawn yw'r cyfleoedd a gânt i'w cymhwyso mewn sefyllfaoedd go iawn o fewn eu themâu. Er bod disgyblion hwnt ac yma'n dysgu ychydig am effaith yr Ail Ryfel Byd ar bobl Bonymaen, cyfyng yw'r profiadau dysgu a gynllunnir yn benodol iddynt ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol, ar y cyfan, yn briodol ac yn rhoi darlun lled gywir o'i chryfderau. Er hyn, nid ydynt bob amser yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella.

Mae perthynas agos yn bodoli rhwng yr ysgol â rhieni, Cylch Meithrin Meini Bach, ac ysgolion lleol eraill. Mae'r perthnasoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn dechrau ysgol gynradd ac uwchradd mor ddidrafferth â phosibl.

## Argymhellion

A1 Mireinio gweithdrefnau hunanwerthuso fel eu bod yn hwylus i'w gweithredu ac yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau dysgu penodol i ddisgyblion ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu Cymraeg a medrau cymdeithasol sy'n cyfateb i, neu'n  uwch na'r disgwyl am eu hoed a'u cam datblygu. Mae'r gweddill yn meddu ar fedrau sy'n is na hynny. Er hyn, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), neu rai sydd o aelwydydd ag incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ym mron bob agwedd o'u gwaith.

O ystyried eu mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar oedolion. Mae medrau llafar y disgyblion yn datblygu'n effeithiol, gyda'r rhan fwyaf yn dechrau datblygu geirfa syml yn gyflym o oed ifanc. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn ehangu eu geirfa'n briodol i sgwrsio am eu gwaith a'u profiadau. Mae llawer yn hyderus i gyfrannu mewn sesiynau 'clonc' gan ddefnyddio iaith briodol. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn creu cyflwyniadau llafar diddorol ar fideo wrth gyflwyno ceisiadau i ymuno â phwyllgorau llais y disgybl. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus gan ddefnyddio patrymau iaith cywir.

Ar y cyfan, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Er mai lleiafrif o ddisgyblion Blwyddyn 2 sy'n darllen yn rhugl, mae llawer yn defnyddio'u medrau'n gynyddol hyderus ac yn dechrau egluro cynnwys testun syml. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen yn ddeallus mewn amrywiol gyd-destunau, gan wneud hynny yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n fwriadus i ddangos eu dealltwriaeth o destun. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau i greu bywgraffiadau am enwogion fel Louis Braille, er enghraifft.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dechrau ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau gan gynnwys ffurfiau creadigol. Maent hefyd yn dechrau ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd trwy greu poster, er enghraifft i esbonio sut i olchi dwylo'n effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, gan baragraffu ac atalnodi'n lled gywir. Maent yn addasu arddull a strwythur gwahanol destunau yn effeithiol. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn ysgrifennu darnau estynedig o safon briodol yn

rheolaidd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu darnau i gymharu nodweddion cerdd ‘Aberfan’ gan T. Llew Jones gyda stori draddodiadol ‘Y Pibydd Brith’.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Maent yn cyfrifo’n hyderus yn unol â’u hoed a’u cam datblygiad ac yn cymhwyso’u dealltwriaeth o rif yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau mathemategol fel amser, siâp, arian a mesur. Yn y dosbarth derbyn, mae’r rhan fwyaf yn cyfrif gwrthrychau’n hyderus yn yr ardaloedd chwarae, fel nifer y brogaod mewn twba. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn trefnu rhifau’n gywir, ac yn defnyddio amrywiol ddulliau i ddatrys problemau mathemategol fel ffracsiynau syml. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle, sy’n eu galluogi i gyfrifo’n hyderus. Maent yn deall bod trefn cyfrifo’n bwysig wrth ddatrys problemau rhif sy’n cynnwys gweithredoedd fel adio, tynnu, lluosi a rhannu. Pan gânt gyfle i wneud hynny, mae’r rhan fwyaf yn cymhwyso’u medrau mathemategol yn briodol mewn gweithgareddau ym meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cyfrifo a chymharu ffeithiau sy’n ymwneud â’r planedau wrth astudio’r system solar.

Mae medrau digidol y mwyafrif yn datblygu’n gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn mewngofnodi’n gynyddol hyderus i ystod o lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae eu medrau codio yn datblygu’n addas wrth iddynt roi cyfarwyddiadau i declyn rhaglenadwy i symud ar hyd llwybr a grëwyd ganddynt i efelychu taith roced i gyrraedd y ddaear. Mae’r disgyblion hynaf yn creu animeiddiadau effeithiol fel adrodd hanes yr Anifeiliaid y Sidydd Tsieineaidd, er enghraifft. Trwy hyn, maent yn ymgorffori delweddau ac animeiddiadau’n greadigol i gyflwyno gwybodaeth mewn dull atyniadol i gynulleidfa. Mae eu gafael ar amrediad o feddalwedd yn datblygu’n dda.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn barchus at ei gilydd ac oedolion. Mae eu hymddygiad yn dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser hamdden. Mae bron bob un disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi’n dda gan staff, ac yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt. Maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn delio’n briodol ag unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn canolbwyntio’n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod sesiynau dysgu. Mae’r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy’n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Maent yn cydweithio’n effeithiol â’u cyfoedion ac oedolion, gan gynnig cymorth i’w gilydd o’u gwirfodd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy’n barod i ddysgu, yn dangos gwydnwch ac yn dyfalbarhau â’u tasgau. Mae bron bob un, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arwain yn hyderus ac yn derbyn y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â hynny yn frwdfrydig. Mae aelodau’r cyngor ysgol, er enghraifft, yn ymfalchïo eu bod wedi cyfrannu’n uniongyrchol at ddiwygio rheolau’r ysgol drwy greu a chyflwyno Cod y Cwm. Enghraifft arall yw’r ffordd mae’r Criw Cymraeg yn annog eu cyfoedion i fod yn falch

o siarad yr iaith, drwy greu Ras yr Iaith i wobrwyo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet yn dda. Maent yn siarad yn ddeallus am bwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau. Mae'r Clwb Cŵl, er enghraifft, yn cynnal gweithdy gwneud cebabs ffrwythau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gwersi, amser egwyl a chinio, a thrwy sesiynau chwaraeon a drefnir gan yr ysgol. Trwy gymryd rhan mewn gwersi digidol ac wrth dderbyn cyngor gan oedolion cyfrifol fel yr heddlu, mae gan bron bob un ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at yr hyn maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u dyheadau drwy gyfrannu at fapiau meddwl ar ddechrau themâu tymhorol. O ganlyniad, mae brwdfrydedd a chyfranogiad disgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth amserol gan oedolion a'u cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn hyderus i hunanasesu ac ymateb i ymdrechion eu cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus sy'n ymwybodol o egwyddorion sy'n seiliedig ar degwch a chydraddoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o hawliau plant, ac yn gwerthfawrogi a pharchu cyfraniadau pobl eraill, gan ganiatáu iddynt gymryd eu tro i siarad a chyfrannu'n fwriadus at drafodaethau dosbarth.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm diddorol a symbylus i ddisgyblion, sy'n dal eu dychymyg a'u hannog i fwynhau dysgu. Mae aelodau'r tîm addysgu, sef yr athrawon a'r cynorthwywyr, yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio themâu difyr sy'n ysbrydoli bron bob disgybl ac yn sicrhau eu hymroddiad i'w dysgu. Maent yn cynnal diwrnodau fel Bwrlwm Thema ar ddechrau bob tymor i danio'u dychymyg a chasglu syniadau'r disgyblion. Fel symbyliad ychwanegol i'w themâu, maent hefyd yn aml yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fynd ar deithiau addysgol fel yr orsaf dân neu un o'r archfarchnadoedd lleol.

Ar y cyfan, mae athrawon wedi addasu eu cynlluniau'n briodol i ymgorffori prif egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cydweithio ag ysgolion lleol eraill i ddatblygu eu syniadau a mireinio'u cynlluniau. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr creadigol a mentrus, ac i ddyfalbarhau yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn effeithiol wrth gynllunio dawns greadigol yn seiliedig ar stori'r Ddraig Goch. Mae'r cwricwlwm yn eang, ac yn cynnwys ystod addas o brofiadau i'r disgyblion yn y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad. Er hyn, heblaw am ambell enghraifft lle mae'r themâu'n cyfeirio at effaith yr Ail Ryfel Byd ar bobl Bonymaen, cyfyng yw'r profiadau dysgu a gynllunnir yn benodol i ddisgyblion ddysgu am, a gwerthfawrogi, cyfoeth hanes a daearyddiaeth eu hardal leol.

Mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau llythrennedd, a medrau digidol disgyblion yn drefnus ac adeiladol. Er eu bod hefyd yn datblygu medrau mathemategol a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus, cyfyng iawn yw'r cyfleoedd a ddarperir iddynt eu cymhwyso mewn sefyllfaoedd go iawn o fewn eu themâu.

Mae pob aelod o'r tîm addysgu'n cydweithio'n effeithiol i feithrin perthynas gynhwysol, gefnogol a gweithgar i ddisgyblion. Mae'r amgylchedd ddysgu fewnol yn lliwgar ac ysgogol, lle gall pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf a lleiaf abl, ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r arddangosfeydd yn gyfuniad o rai sy'n dathlu gwaith disgyblion ac eraill sy'n gymorth i'w dysgu. Mae'r ardal ddysgu allanol yn datblygu'n briodol yn yr adran dysgu sylfaen. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn mwynhau treulio amser yn yr ardal allanol i wneud tarten o bridd a cherrig yn y gegin fwd ar ddydd Mercher Mwdlyd. Er hyn, nid yw'r ardal ddysgu allanol wedi datblygu digon yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn.

Mae gan bron bob aelod o'r tîm addysgu ddisgwyliadau uchel o ran ymrwymiad disgyblion i'w dysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn briodol, ac mae hyn yn creu amgylchedd ddysgu weithgar. Mae'r tîm addysgu'n cynnig adborth a chymorth adeiladol effeithiol iddynt, yn enwedig ar lafar. Mae hyn yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a sut i wella'u hymdrechion. Mae athrawon yn rhannu amcanion tasgau'n briodol gyda disgyblion ac mae'r tîm addysgu cyfan yn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus drwy arwain gweithgareddau penodol addas gydag unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae athrawon yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn bwrpasol. Maent yn adnabod yn gynnar y rheini sy'n tangyflawni a'r rhai hynny sy'n fwy abl, ac yn addasu'r ddarpariaeth yn unol â'r angen. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae aelodau'r tîm addysgu'n cydweithio'n frwdfrydig ac angerddol i drochi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg ac yn eu hannog yn barhaus i wneud defnydd pwrpasol o'r iaith. Mae'r mwyafrif yn fodelau iaith da ac yn manteisio ar gyfleoedd penodol i gyflwyno geirfa newydd a phatrymau iaith i'r disgyblion. Maent yn defnyddio dulliau holi ac ymateb yn effeithiol ac yn annog y disgyblion i ymestyn eu hymatebion, lle bo angen. Mae hyn yn galluogi'r mwyafrif i wneud cynnydd cadarn wrth gaffael yr iaith Gymraeg, a'i defnyddio'n gynyddol hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. I hybu eu dealltwriaeth o ieithoedd eraill, mae'r ysgol yn darparu profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ar frig yr ysgol ddysgu Ffrangeg fel rhan o gynllun pontio clwstwr yr ysgol uwchradd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae ei threfniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng aelodau'r tîm addysgu a disgyblion yn nodwedd arbennig. Maent yn sicrhau bod disgyblion sydd ag ADY neu anghenion lles emosiynol yn cael cefnogaeth effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn llwyddo i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol i gofnodi cynnydd a lles disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, ac maent yn gweithredu’r rhain yn gydwybodol. Mae’r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth pwrpasol ac effeithiol iddynt, yn unol â’r angen. O dan arweiniad effeithiol y cydlynydd ADY, mae aelodau’r tîm addysgu’n cefnogi’r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn darparu ystod o raglenni cefnogi pwrpasol i ddisgyblion sy’n datblygu eu medrau llythrennedd a’u lles emosiynol yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gynhyrchiol â rhieni disgyblion sydd ag ADY gan eu cynnwys yn y broses adolygu cynnydd cyn gosod targedau cyrhaeddiad pellach ar eu cyfer. Mae’r sesiynau croeso a rhannu teimladau yn ystod cyfnodau cofrestru ar ddechrau’r dydd yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn cychwyn ar eu tasgau dysgu.

Mae’r tîm addysgu’n cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion deimlo’u bod yn perthyn i’w cymuned a’r byd ehangach. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel ymweliad â chartref preswyl lleol i ddiddanu’r henoed, er enghraifft. Yn ogystal, cynllunnir profiadau pwrpasol iddynt gymryd rhan mewn cystadlaethau a pherfformiadau. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn ymweld â Gŵyl Abertawe yn achlysurol ac mae disgyblion yn cystadlu yn eisteddfod yr Urdd yn flynyddol. Darperir cyfleoedd iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a sensitif. Er enghraifft, caiff y disgyblion hynaf eu hannog i ddarparu cymorth ymarferol i’r disgyblion ieuengaf yn ystod amser cinio.

Mae’r tîm addysgu’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol yn llwyddiannus o fewn sesiynau torfol ac yn eu gwaith thema. Rhoddir cyfle, er enghraifft, i ddisgyblion Blwyddyn 4 a 5 fyfyrio ar werthoedd fel caredigrwydd yn dilyn gwrando ar stori’r ‘Llew a’r llygoden’. Cysylltir yr egwyddorion pwysig hyn ag arwyddair yr ysgol, sef ‘Gwnewch y pethau bychain.’ Mae’r sesiynau crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd bron bob un disgybl yn dda. Darperir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddysgu am, a chymharu, arferion gwyliau fel y Nadolig, Diwali a Hannukah. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o ystod o grefyddau yn effeithiol.

Mae athrawon yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion sy’n ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn hynod effeithiol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt astudio hanes Rosa Parks a Martin Luther King. Mae hyn yn helpu’r disgyblion i ddeall hawliau pobl eraill ac yn hyrwyddo agweddau iach at ddathlu amrywiaeth.

Trwy gyfrwng themâu ac ymweliadau addysgol, mae’r tîm addysgu’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, mae’r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymweld â lleoliadau hanesyddol, gan gynnwys Castell Henllys ac Amgueddfa’r Glannau yn Abertawe, ac yn eu haddysgu am awduron Cymraeg fel T. Llew Jones. Er hyn, cyfyng yw’r cyfleoedd a ddarperir iddynt ddysgu am gyfoeth hanesyddol a diwylliannol Bonymaen.

Mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu at yr amrywiol bwyllgorau sy’n cynnig cyfleoedd cyson iddynt wneud penderfyniadau pwysig sy’n dylanwadu ar waith yr

ysgol. Er enghraifft, mae'r pwyllgor eco wedi sefydlu'r arfer o ailgylchu batris, a'r pwyllgor ysgol iach wedi sefydlu ymgyrch sticeri i annog disgyblion i fwyta'n iach.

Mae trefniadau'r ysgol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb yn gadarn ac wedi arwain at gynnydd yn y cyfraddau yn ddiweddar. Mae'r staff yn cysylltu â'r rhieni'n brydlon i drafod unrhyw bryder sydd ganddynt mewn perthynas â phrydlondeb neu absenoldeb ac yn defnyddio swyddog presenoldeb a lles yr awdurdod lleol yn effeithiol, pan fydd angen.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae hon yn seiliedig ar ei harwyddair, 'Gwnewch y pethau bychain', sef rhai o eiriau olaf Dewi Sant. Mae'n cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus i staff, disgyblion a rhieni drwy eu hannog i fod yn ymrwymedig i feithrin rhinweddau a fydd yn cyfoethogi eu bywydau. Mae'n hyrwyddo gwerthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch, tegwch, parch, cwrteisi, teyrngarwch, dyfalbarhad ac ymddiriedaeth yn dda. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gartrefol, deuluol a Chymreig i blant yr ardal.

Cydweithia'r pennaeth, y dirprwy a gweddill y tîm addysgu'n agos fel tîm. Maent yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n sicrhau bod yr ysgol yn rhoi bri ar ddysgu ac yn hafan ddiogel a chartrefol i ddisgyblion. Maent yn meithrin diwylliant diogelu cadarn, ac yn monitro lles a chynnydd disgyblion yn briodol. Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad aelodau'r tîm addysgu'n rheolaidd i gydnabod eu llwyddiannau proffesiynol a'u hannog i wella unrhyw feysydd penodol y cytunir y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso sydd, ar y cyfan, yn briodol ac mae aelodau'r tîm addysgu, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn cyfrannu atynt. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi eu seilio ar ystod o ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol. Er eu bod yn rhoi darlun lled gywir o gryfderau'r ysgol, nid yw'r gweithdrefnau hyn bob amser yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i adnabod yn union yr agweddau penodol sydd angen eu gwella. Er hyn, mae blaenoriaethau a gweithdrefnau cyfredol yr ysgol ar gyfer gwella yn gyffredinol addas ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, safonau a chynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol addas i staff. Mae'r rhain, fel arfer, yn seiliedig ar flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd â'u hanghenion penodol nhw. Mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar gynnal a gwella cynnydd a lles disgyblion. Mae'r prif sylw yn ddiweddar wedi bod ar les disgyblion a gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae arweinwyr yn monitro effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y ddarpariaeth, yr addysgu a, maes o law, ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal trafodaethau â staff ac i ddysgu am y ddarpariaeth a safonau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu cefnogi i gyfrannu'n wybodus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol i'r ysgol ac i gyflawni eu rolau statudol. Maent yn rheoli cyllid yr ysgol yn ddarbodus. Mae hyn yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, sy'n cael ei

ddefnyddio'n synhwyrol i hybu'r dysgu a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion. Maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r berthynas gynhyrchiol sy'n bodoli rhwng yr ysgol â rhieni yn sicrhau bod ganddynt brosesau cyfathrebu effeithiol i'w galluogi i godi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plant. Mae gan yr ysgol bartneriaeth hynod effeithiol â Chylch Meithrin Meini Bach sydd wedi ei leoli yn un o ddosbarthiadau'r dysgu sylfaen. Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r Cylch yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol a bod dilyniant effeithiol yn yr addysgu a'r dysgu. Mae gan yr ysgol gyswllt cynhyrchiol ag ysgolion lleol eraill, hefyd. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu gwahanol elfennau o'r cwricwlwm ac i sicrhau bod trefniadau pontio yn galluogi disgyblion i drosglwyddo'n ddi-drafferth i'r sector uwchradd pan ddaw'r amser.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024